# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 17 Rhagfyr 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Beth yw cyfanswm y grantiau trafnidiaeth a ddychwelwyd gan awdurdodau lleol? (WAQ50805)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Beth yw'r dadansoddiad, fesul awdurdod lleol, o'r grantiau trafnidiaeth a ddychwelwyd? (WAQ50806)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Faint o grantiau trafnidiaeth a ddychwelwyd gan awdurdodau lleol? (WAQ50807)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):**Ni ddychwelodd awdurdodau lleol yng Nghymru unrhyw grantiau trafnidiaeth, grantiau priffyrdd, grantiau diogelwch ar y ffyrdd na grantiau gwasanaethau trafnidiaeth leol yn 2007-08.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Pryd mae'r Gweinidog yn rhagweld penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch tocynnau teithio yng Nghymru? (WAQ50808)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Cytunwyd ar y cyllid a'r rhaglen i ddarparu tocynnau teithio cerdyn call ar gyfer tocynnau teithio rhad. Dechreuodd y broses o gyflwyno peiriannau tocynnau cardiau call yn 2006 a chaiff y broses ei chwblhau yn 2008. Mae'r cyfleuster swyddfa gefn yn cael ei ddatblygu a dosberthir cardiau call newydd i gonsesiynwyr cymwys ledled Cymru yn ystod chwe mis cyntaf 2008.

**Nick Ramsay (Mynwy):** A fyddai'r Gweinidog yn amlinellu ei bolisïau ar wella gwasanaethau trawsffiniol, gan gyfeirio'n benodol at y tocynnau teithio newydd yng Nghymru? (WAQ50809)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae ein cynllun tocynnau teithio rhad llwyddiannus iawn ar gyfer pobl hŷn a phobl anabl eisoes yn darparu ar gyfer teithiau trawsffiniol cyfyngedig i'r gymuned agosaf yn Lloegr. Hefyd, mae'r Ddeddf Teithio Rhad ar Fysiau 2007 a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cynnwys pwerau i gyflwyno trefniadau cyfatebol ar gyfer teithio rhad ar fysiau rhwng Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, ni fydd y cynllun teithio rhad yn Lloegr yn cychwyn tan fis Ebrill 2008 a bydd angen amser iddo ymsefydlu. Bydd angen i hyn fynd rhagddo'n gyntaf cyn i ni allu dechrau trafodaethau gyda'r Adran Drafnidiaeth ar drefniadau cyfatebol ar gyfer Cymru a Lloegr.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A gynhaliwyd unrhyw asesiadau amgylcheddol strategol, yn unol â chyfarwyddeb yr UE 2001/42/EC, ynghylch tir y Comisiwn Coedwigaeth y gellir ei ddefnyddio ar gyfer ffermydd gwynt mawr ac, os felly, a allai copi fod ar gael, ac os nad, pryd y cynhelir yr asesiadau hyn? (WAQ50813) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig.***

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad amgylcheddol strategol o'r defnydd o'r tir a reolir gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ar gyfer ffermydd gwynt mawr ac nid oes cynlluniau i wneud hyn yn y dyfodol.

Nod yr ymarfer caffael a reolir gan y comisiwn yw nodi datblygwyr a ffefrir i gyflwyno dewisiadau iddynt ddatblygu ffermydd gwynt ar y tir a reolir gan y comisiwn, yn amodol ar gytuno ar les gyda'i berchnogion, Llywodraeth Cynulliad Cymru, a chael caniatâd cynllunio gan yr awdurdod perthnasol.

Nid yw'r ymarfer gwaredu yn pennu fframwaith ar gyfer caniatáu datblygiadau yn y dyfodol fel sy'n ofynnol o dan erthygl 5(2)(b) o'r gyfarwyddeb. Cyflawnir hynny gan 'Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy' Llywodraeth y Cynulliad, yn hytrach na'r ymarfer gwaredu ffermydd gwynt.

Hefyd, mae'n annhebygol y bodlonir erthygl 2(c) gan fod yr ymarfer gwaredu yn cael ei gynnal yn unol â'r pwerau a nodir yn adran 39(3)(b) o Ddeddf Goedwigaeth 1967 ('y Ddeddf') ac felly ni ellir ei ddisgrifio fel un y gellid ei fabwysiadu drwy weithdrefn ddeddfwriaethol gan ei fod yn benderfyniad a wneir yn dibynnu ar bŵer statudol cyfredol.

Mae hefyd yn annhebygol y gellid disgrifio'r ymarfer gwaredu fel un sy'n ofynnol dan unrhyw ddarpariaeth. Nid yw'r darpariaethau y cynhelir yr ymarfer gwaredu yn unol â hwy, sef adran 39(3)(b) o'r Ddeddf, yn fandadol nac yn rhagnodol. Nid ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal unrhyw ymarfer gwaredu arnynt. Yn hytrach, maent yn ddarpariaethau y gellir eu gweithredu yn ôl disgresiwn y comisiwn coedwigaeth, yn dibynnu, wrth gwrs, ar ofynion y trefniant cyfreithiol a wnaed gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwaredu eu tir.

Am y rhesymau a ddisgrifiwyd uchod nid yw'r ymarfer gwaredu yn rhan o'r disgrifiad o gynllun na rhaglen a ragnodwyd gan reoliadau cyfarwyddeb yr UE ac felly nid oes angen asesiad amgylcheddol strategol ohono.

Er nad oes gofyniad i gynnal AAS o'r ymarfer, bydd y datblygwyr yn cyflwyno asesiadau effaith amgylcheddol manwl fel rhan o'r broses gynllunio. Bydd y rhain ar gael i graffu arnynt pan fydd pob datblygwr yn cyflwyno ei gais ar gyfer caniatâd cynllunio i'r awdurdod perthnasol.

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog nodi pa gymalau o Fesur Tai ac Adfywio Llywodraeth San Steffan fydd yn berthnasol i Gymru a pha sylwadau a wnaeth ynghylch y cymalau hynny? (WAQ50814)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Mae'r Mesur Tai ac Adfywio wedi'i anelu at fesurau yn Lloegr yn bennaf.

Mae Rhan 1 o'r Mesur yn creu'r asiantaeth cartrefi a chymunedau (HCA). Prif amcanion HCA fydd gwella'r cyflenwad tai a'u hansawdd yn Lloegr; sicrhau prosesau adfywio neu ddatblygu tir neu seilwaith yn Lloegr; a chefnogi ffyrdd eraill o greu, adfywio a datblygu cymunedau yn Lloegr neu eu lles parhaus.

Mae Rhan 2 o'r Mesur yn creu rheoleiddiwr tai cymdeithasol newydd, sef y swyddfa tenantiaid a landlordiaid cymdeithasol. Bydd y rheoleiddiwr newydd yn rheoleiddio tai cymdeithasol yn Lloegr a ddarperir gan ddarparwyr cofrestredig. Bydd y rheoleiddiwr newydd yn ymgymryd â swyddogaethau rheoleiddio'r Gorfforaeth Tai. Mae'r Mesur hefyd yn diddymu'r Gorfforaeth Tai, diwygiadau dilynol yn unig sy'n gymwys yng Nghymru.

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru eisoes lawer o bwerau a swyddogaethau'r sefydliadau newydd. Mae'r Mesur yn diddymu'r Comisiwn ar gyfer Trefi Newydd. Trosglwyddir swyddogaethau'r Comisiwn ar gyfer Trefi Newydd yn Lloegr i HCA. Trosglwyddir swyddogaethau'r Comisiwn ar gyfer Trefi Newydd yng Nghymru i Weinidogion Cymru a chaiff unrhyw rai o'r asedau'r Comisiwn ar gyfer Trefi Newydd yng Nghymru sy'n weddill hefyd eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

Mae Rhan 3 o'r Mesur yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Mae'n cyfeirio at ystod o ddarpariaethau amrywiol fel a ganlyn:-

<u>Tystysgrifau Cynaliadwyedd:</u> Mae'r Mesur yn darparu ar gyfer cyflwyno graddau cynaliadwyedd mandadol ar gyfer cartrefi newydd yng Nghymru a Lloegr drwy ei gwneud yn ofynnol i system raddio

gael ei nodi mewn pecynnau gwybodaeth am eiddo. Bydd hefyd yn darparu pwerau i nodi'r radd cynaliadwyedd a gymhwysir.

Grymuso tenantiaid: Mae'r Mesur yn ehangu'r rhestr o faterion y gellir eu cynnwys yn y gofynion a osodir ar awdurdod lleol wrth ystyried trefnu cytundeb gyda sefydliad rheoli tenantiaid. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw sefydliadau rheoli tenantiaid yng Nghymru. Mae'r Mesur hefyd yn caniatáu i reoliadau gael eu datblygu sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal pleidlais o ran trosglwyddo stoc os bydd y tenantiaid yn gofyn am hynny

Hawl i Brynu: Mae'r Mesur yn ehangu cwmpas pwerau cyfredol Gweinidogion i lunio rheoliadau mewn perthynas â benthyciadau o ran taliadau gwasanaeth y bu hawl i'w prynu yn flaenorol a fflatiau eraill awdurdodau lleol. Nid yw'r cymalau hyn yn cwmpasu'r un tir â'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar yr hawl i brynu y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei ystyried ar hyn o bryd.

Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai: Mae hyn yn sicrhau y gall 'unigolyn priodol' gytuno gydag awdurdod lleol na fydd system cymhorthdal y cyfrif refeniw tai yn gymwys i'r awdurdod nac i eiddo penodol yr awdurdod. Ni fyddai awdurdodau sy'n ceisio peidio cael eu heithrio o'r system cymorthdaliadau yn llwyr yn talu unrhyw arian ychwanegol, a byddent yn cadw'r holl dderbyniadau rhent a gwerthiannau a geir o eiddo'r Cyfrif Refeniw Tai. Byddai taliad unigol yn ddyledus i'r Trysorlys. Ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau yng Nghymru, byddai'r taliad yn sylweddol.

Gallai cytundeb hefyd ganiatáu i unrhyw dai newydd a ddarperir gan awdurdod gan ddefnyddio'i adnoddau ei hun gael eu heithrio o system cymorthdaliadau'r Cyfrif Refeniw Tai. Ni thelid unrhyw gymhorthdal o ran yr eiddo a byddai angen i'r awdurdod dalu am unrhyw fenthyciadau darbodus o'r arian ychwanegol a geid o'r eiddo.

Mae'r Dirprwy Weinidog ar gyfer Tai wedi cytuno mai Gweinidogion Cymru fydd yr 'unigolyn priodol' yng Nghymru.

Cysylltiad lleol i'r lluoedd arfog: Bydd y mesur yn diwygio deddfwriaeth digartrefedd i ganiatáu i'r cyfnod o amser y mae aelodau'r lluoedd arfog wedi byw mewn ardal tra'n gwasanaethu gael ei ystyried wrth sefydlu cysylltiad lleol. Deallir y caiff gwelliant ei gyflwyno gan y Llywodraeth wrth i'r Mesur fynd ar ei hynt i wneud darpariaethau tebyg o ran dyrannu tai cymdeithasol.

Estyn hawliau tenantiaeth Sipsiwn a Theithwyr: Bydd y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid safleoedd Sipsiwn a Theithwyr gynnig yr un fath o gytundebau deiliadaeth sydd ar gael i drigolion safleoedd carafán cartrefi mewn parciau ar hyn o bryd. Mae hyn yn gwella hawliau Sipsiwn a Theithwyr, sydd ar hyn o bryd yn preswylio o dan amodau trwydded, i gael mwy o ddiogelwch rhag cael eu troi allan er enghraifft.

Tenantiaethau Ymyriadau Teuluol: Bydd y Mesur yn caniatáu i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai gynnig tenantiaethau sy'n gysylltiedig â chefnogaeth ymddygiad i denantiaid sydd mewn perygl o golli eu tenantiaeth oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cymorth ariannol ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth a gwasanaethau eraill: Mae'r Mesur yn ehangu'r pŵer cyfredol i Weinidogion roi cymorth ariannol ar gyfer rhoi cyngor cyffredinol o ran cyfraith tenantiaid a landlordiaid gan gynnwys cyngor ar gynlluniau rheoli ystadau.

Cynhaliwyd trafodaethau helaeth i gytuno ar gwmpas y darpariaethau hyn ac yn benodol y trefniadau ar gyfer eu cychwyn yng Nghymru. O ystyried natur darpariaethau'r Mesur, nid wyf wedi gwneud unrhyw gynrychioliadau ehangach.